**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**9 Hydref 2024**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Diwygio") yn gwneud cywiriadau i reoliadau 2(1) a 7(3)(a) o Reoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") (rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau Diwygio).

1.2 Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn rhoi is-baragraff (2) newydd ym mharagraff 5A o Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") (rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau Diwygio). Mae'r is-baragraff (2) newydd yn cynnwys nifer o gywiriadau.

1.3 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cael eu gwneud mewn ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cael eu gwneud mewn ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2024 (SL(6)489). Mae'r diwygiadau'n mynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd technegol canlynol a grynhoir isod:

2.2 Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2024 yn y diffiniad o "cynllun Gweinidogion Cymru", disgrifir y cyfeiriad "is-adran 89B(2) o Ddeddf 1998" yn anghywir a dylid cyfeirio ato fel "adran 89B(2) o Ddeddf 1998" (gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 6.16, ynghylch cyfeiriadau cyfansawdd). Mae'r un mater yn codi yn rheoliad 9, yn y diffiniad o "y cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr awdurdod lleol" yn y paragraff 5A(2)(b) newydd.

2.3 Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2024 rhoddir ystyr i'r term "diwrnod gwaith", ac mae'r ystyr hwnnw yn cael ei gyfleu yn Offerynnau Statudol Cymru fel y Rheoliadau hyn gan Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Felly, nid oedd angen diffinio "diwrnod gwaith" mewn unrhyw ddarpariaethau dehongli a geir yn y Rheoliadau hyn os bwriadwyd i'r term gael yr un ystyr ag a roddir gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

2.4 Yn rheoliad 7(3)(a) o Reoliadau 2024, ceir cyfeiriad anghywir at "adran 578(1) o Ddeddf 1996". Fodd bynnag, ni cheir is-adran (1) yn adran 578 o Ddeddf 1996.

2.5 Yn rheoliad 9 o Reoliadau 2024, mewnosodir paragraff 5A newydd yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011:

> ym mharagraff 5A(1) newydd, ym mharagraffau (a) ac (e), defnyddir y termau "cais" a "ffurflen gais gyffredin" yn y drefn honno sydd wedi'u diffinio yn rheoliad 2(1) at ddibenion Rheoliadau 2024. Nid yw'r termau hyn wedi'u cynnwys gyda'r diffiniadau a restrir yn is-baragraff (2) o'r paragraff 5A newydd. Felly, nid yw'r un ystyr wedi'i roi iddynt ym

mharagraff 5A o Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011,

yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniadau Saesneg cyfatebol wedi'u nodi mewn testun italig rhwng cromfachau ar ôl pob diffiniad. Yn y testun Saesneg, ni nodwyd y diffiniadau Cymraeg cyfatebol ar ôl pob diffiniad, a

yn y diffiniad o "y cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr awdurdod lleol", ym mharagraff 5A(2)(a), mae cyfeiriad at gynllun a fabwysiedir gan awdurdod lleol "yn unol â rheoliad 2(1) o Reoliadau 2024". Dylai fod wedi cyfeirio at reoliad 4(1) o Reoliadau 2024 sy'n gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i fabwysiadu cynlluniau cymhwysol. Ar adeg ei fabwysiadu bydd y cynllun yn cael ei sefydlu, a gwybodaeth am y cynllun sefydlog hwnnw yw'r wybodaeth y dylid ei chyhoeddi.

2.6 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Weithdrefn Cyhoeddiad am Ddim ac felly fe'u dyroddir yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd wedi prynu copi caled o fersiwn Argraffydd y Brenin o Reoliadau 2024.

2.7 Dylid nodi bod y Cofrestrydd OSau bellach wedi cyhoeddi slip cywiro mewn cysylltiad â phwynt adrodd technegol 1 ac ailargraffiad wedi'i gywiro mewn cysylltiad â phwynt adrodd technegol 7.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer derbyn i ysgolion.

3.2 Yn benodol, mae adran 86(1) o Ddeddf 1998 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i rieni gael nodi ysgol a ffefrir ganddynt. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy roi gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys manylion holl ysgolion ardal yr awdurdod lleol a sut i wneud cais. Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn fel rheol, ac felly mae'r awdurdod lleol yn darparu ffurflenni cais. Ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn.

3.3 Mae adran 86(2) o Ddeddf 1998 yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod derbyn gynnig lle yn yr ysgol a ffefrir fel rheol, os oes lle ar gael. Gan yr awdurdod derbyn, felly, y mae'r ddyletswydd i gynnig y lle.

3.4 Mae adran 86(2A) o Ddeddf 1998 yn datgan y caiff trefniadau a wneir o dan is-adran (1) ganiatáu i riant plentyn nodi mwy nag un ysgol a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddynt wneud hyn os, yn unol â chynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn a fabwysiadwyd neu a wnaed gan awdurdod lleol yn rhinwedd adran 89B o Ddeddf 1998, cynigir lle i'r plentyn mewn ysgol wahanol y mae'r rhiant hefyd wedi'i nodi'n ysgol a ffefrir.

3.5 Yn unol â hynny, mae adran 89B ac 89C o Ddeddf 1998 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Yn benodol, mae adran 89B(1) o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yn eu hardal. Mae adran 89C yn datgan y caniateir gwneud rheoliadau ynghylch cynnwys cynlluniau cymhwysol, gan gynnwys y dyletswyddau a osodir gan gynlluniau o'r fath ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn ysgolion.

3.6 Mae'r pwerau i wneud Rheoliadau 2024 wedi'u cynnwys yn adrannau 89B(1), 89C(2), a 92 o Ddeddf 1998. Gellid dirymu Rheoliadau Diwygio 2024 yn sgil penderfyniad gan y Senedd h.y. drwy weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau Diwygio yw diwygio Rheoliadau 2024 er mwyn cywiro nifer o wallau yn Rheoliadau 2024.

## 5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau Diwygio. Mae hyn oherwydd bod y Rheoliadau Diwygio yn gwneud cywiriadau technegol yn unig i Reoliadau 2024 ac nad ydynt yn newid nac yn cael unrhyw effaith ar y polisi na sut y caiff ei gymhwyso.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan fod y Rheoliadau Diwygio yn gwneud diwygiadau technegol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth yn gywir (h.y. Rheoliadau 2024) ac nid yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.